Gwerthfawrogi'r Amgylchedd

Cylchlythyr y

Gwanwyn 2010

Mae menter 'Gwerthfawrogi'r Amgylchedd' PLANED yn rhoi cyfle i gymunedau fod yn rhan o'r broses o ddiogelu a gwella amgylchedd Sir Benfro ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ar y cyd â'n partneriaid arbenigol, rydym yn bwriadu helpu cymunedau i ennill y sgiliau a'r wybodaeth i wireddu syniadau da .

PLANED, Yr Hen Ysgol, Heol yr Orsaf, Arberth SA67 7DU Ffôn: (01834) 862101

DINAS ECO TYDDEWI

gan Gill Lewis

Grŵp cymunedol yw grŵp Dinas Eco Tyddewi sy'n cyfarfod bod mis i weithio ar brosiectau amgylcheddol. Mae gweithgareddau yn ddiweddar wedi cynnwys mynd ar drywydd rhandiroedd (eto fyth), cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus mewn cyfnod dwys "Wythnos Eco", a chychwyn cynllun Amaethyddiaeth gyda Chefnogaeth y Gymuned.

Rhandiroedd: ar ôl bron i dair blynedd o chwilio am dir gerllaw Tyddewi ar gyfer rhandiroedd, penderfynodd y grŵp dderbyn cynnig am ran o gae tua ¼ milltir o'r ganol y ddinas, yn fferm Emlych. Cafwyd cefnogaeth Cyngor y Ddinas i ddarparu rhandiroedd ar gyfer y gymuned ac yn barod i brydlesi'r tir ... ond gwnaeth ymholiadau gyda'r Parc Cenedlaethol ynghylch materion cynllunio. Ymatebodd y Parc Cenedlaethol trwy ddweud nad oedd unrhyw broblem ynglŷn â *chynllunio* gyda'r safle fel y cyfryw, ond yr oedd yn rhy bell y tu allan i "graidd trefol" Tyddewi i fod yn addas a beth bynnag fe fyddai materion cynllunio yn ymwneud â pharcio, mynediad, a datblygiadau ategol. Mae hyn wedi rhoi diwedd ar y prosiect am y tro. Ond mae Cyngor y Ddinas yn trefnu i gyfarfod â swyddogion y Parc i ddatrys y problemau fel y gellir cychwyn plannu a thyfu y tymor hwn. Cymdeithas Rhandir Dewi Sant yw'r corff swyddogol bellach, cangen o'r Grŵp Eco Ddinas,

Wythnos Eco: dechreuodd hon yn wael gan ei bod hin rhaid i ni oedi lansiad y rhandiroedd a'i gynnwys yng Ngorymdaith y Ddraig (gweler uchod), ond cafwyd nifer dda iawn ar gyfer glanhau traeth Niwgwl a ffilm a drefnwyd gan Surfers Against Sewage. Ar Ddydd Gŵyl

Ddewi cawsom stondin prysur ar Sgwâr y Groes, yn sgwrsio a gwrando ar ffrindiau, cymdogion ac ymwelwyr am y gwahanol brosiectau a'r pynciau llosg. Dangoswyd "Age of Stupid" a chafwyd trafodaeth am faterion yn ymwneud â gwastraff, ailgylchu a chael gwared ar wastraff gyda llefarydd y Sir a Surfers Against Sewage. Daeth nifer dda ynghyd ar gyfer glanhau'r traeth ym Mhorth Llisgi ddydd Iau... llawn cystal gan fod yna beth wmbreth o blastig wedi golchi i fyny ar y traeth. Yn olaf ar y dydd Gwener cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus, gydag arddangosion gan Trawsnewid Bro Gwaun, FOE, PLANED, Canolfan Eco Trefdraeth a GM-Free Wales. Cafwyd cyflwyniad gan Andy Middleton ar y "Do Lectures", ac yna cyflwynodd Gerald Miles Amaethyddiaeth gyda Chefnogaeth y Gymuned (CSA) a chynnig sefydlu cynllun yn lleol. Yn olaf dangoswyd y Ffilm "Food Inc".

Amaethyddiaeth gyda Chefnogaeth y Gymuned : Nick Weir, Stroud a hwylusodd y cyfarfod i sefydlu cynllun CSA / Canolbwynt Bwyd yn lleol. Daeth criw teilwng ynghyd gyda theimlad o ymrwymiad cryf i hybu bwyd lleol a chefnogi cynhyrchwyr organig lleol sy'n ei chael hi'n anodd. Sefydlwyd grŵp craidd a dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â'r Ganolfan Eco am fwyd o fanylion. Mae PLANED yn trefnu ymweliad â'r safle CSA llwyddiannus yn Stroud ddydd Sadwrn 24 Ebrill. I gael mwy o wybodaeth ac archebu lle e-bostiwch rupertd@planed.org.uk.

PLANED
PAVS Pembrokeshire Association of Voluntary Services
Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales
LEADER
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GWYNT TEG I GRŴP YNNI DE DDWYRAIN SIR BENFRO (PSEEG)

gan Janet Roberts

Mae arolwg ynni adnewyddadwy De Ddwyrain Sir Benfro gan Grŵp Ynni De Ddwyrain Sir Benfro yn parhau yn ei anterth. Mae'r ymgynghorwyr Dulas bellach wedi cynnal astudiaethau helaeth yn yr ardal. Mae wedi bod yn broses drwyadl a dwys. Nid oes un garreg heb ei throi. Roedd angen ystyried ffactorau diri.

Yn gynnar iawn yn y broses daeth un gwirionedd sylfaenol yn amlwg; yr unig ddewis ymarferol oedd gwynt. Nid yw pŵer y llanw yn bosibilrwydd o safbwynt masnach hyd yma. Mae potensial gwirioneddol i ddefnyddio pŵer dŵr mewn sawl rhan o Gymru, ond yn anffodus nid yn Ne Ddwyrain Sir Benfro. Nid yw ffrydiau byr yn rhoi colofn ddigonol o ddŵr.

Gan fwrw at y gwaith, yn gyntaf roedd angen ar ymgynghorydd Dulas, Andy Warrington, asesu amrywiaeth cyflymder y gwynt dros yr holl ardal. Ond megis y dechrau oedd hyn. Beth oedd yr un mor bwysig oedd ystyried hygyrchedd; byddai'n rhaid i unrhyw safle posibl gael ei wasanaethu gan ffyrdd digonol. Roedd hi'n hanfodol ei fod gerllaw llinellau trawsyrru trydan. Roedd ffactorau eraill yn cynnwys rhyngweithio gyda rheoli traffig awyr, cyfleusterau telathrebu ac amrywiaeth eang o bryderon amgylcheddol. Yr hyn oedd yn amlwg iawn yn yr olaf oedd agwedd gyffredinol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Yn enwog am ei amheuon ers amser ynglŷn â thyrbinau gwynt, gwelwyd arwyddion o newid yn ddiweddar sydd i'w croesawu'n fawr. Yng Nghynllun Datblygu diweddaraf y Parc mae'n amlwg mewn egwyddor yn derbyn cymuned o dyrbinau gwynt sydd heb fod yn fwy na 330KW. Yn wir mae'n dda gweld meddwl blaengar o'r fath.

Yr hyn sy'n bwysicach fodd bynnag yw bod hyn i gyd yn ymwneud â'r pryder am les pobl. Roedd yn rhaid i bob safle a nodwyd fod o leiaf 400 meter o'r man agosaf lle'r oedd pobl yn byw. Ni ddylai neb fod yn agored i ofn, waeth pa mor anghyfiawn, y byddai cynllun o'r fath yn cael effaith andwyol ar eu bywyd bob dydd.

Nid tasg hawdd oedd dwyn yr holl ffactorau hyn ynghyd ond ar ôl wythnosau lawer o ddadansoddi dwys mae Andy yn ddiweddar wedi gallu cyflwyno ei gasgliadau cychwynnol. Nodwyd o leiaf deg safle addas. Oherwydd sensitifrwydd masnachol ni ellir cyhoeddi'r rhain hyd yma. Fodd bynnag bydd pob un o'r safleoedd yn destun craffu pellach i sefydlu pa un yw'r opsiwn gorau. Rhagwelir y bydd cynlluniau ar gyfer datblygu yn dilyn yn fuan.

Hoffai aelodau PSEEG bwysleisio na fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth barhaus PLANED. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai wedi bod yn bosibl ystyried y prosiect cymunedol hwn.

Ac ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd prosiectau cymunedol o'r fath. Gall tyrbinau gwynt canoli eu maint, hyd yn oes ar ôl talu'r costau gweithredu, ddod â mwy na £100,000 i'r economi lleol. Gellir defnyddio'r incwm hwn mewn sawl ffordd er lles y gymuned. Mae'n rhaid ei bod hi'n well i'r elw sy'n deillio o ddatblygu adnodd naturiol Sir Benfro, sef gwynt, fynd i'r gymuned leol yn hytrach na rhanddeiliaid dieithr.

Gwynt Sir Benfro i bobl Sir Benfro.

FERN Cael Mynediad i'n Gwlyptir, Freshwater East

gan Malcolm Griffiths

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn berchen ar ddarn mawr o dir yn ein pentref ac mae am i ni ei droi'n Warchodfa Natur Leol.

Dyma beth yw cyfle gwych.

Pwy ydym ni? – pentrefwyr brwdfrydig o Freshwater East a'r gymuned leol. Gwnaeth rhai ohonom ffurfio grŵp **F**reshwater **E**ast **R**eserve for **N**ature a bwrw iddi i sefydlu amcanion a chyfansoddiad gyda'n gilydd.

Mae ein Gwarchodfa Natur Leol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Mae'n fan sydd iddo nodweddion sydd o ddiddordeb arbennig yn lleol. Mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgu am natur neu wneud dim mwy na mwynhau. Mae'r Warchodfa Natur Leol yn cynnwys llawer o gynefinoedd naturiol - Twyni, Glaswelltir Twyni, Cors, Prysg a Choetir.

Mae'r Gors yn ardal tua maint 6 neu 7 cae pêl-droed. Mae glan y môr, maes carafannau, cyfadeiladau gwyliau, tir amaethyddol a thir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei ffinio. Mae'n cynnwys gwely

cyrs, prif gwrs dŵr, nifer o darddellau a llain o goetir gwlyb.

Yn ystod cyfarfodydd Dweud Eich Dweud (During Have Your Say), a hwyluswyd gan PLANED a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro mynegwyd dymuniad i gael rhodfa yn ardal y Gors. Cafwyd sawl dewis o gynllun ond roedd angen mynedfa. Roedd y llwybr yn amlwg, waeth pa gynllun gawsai ei fabwysiadu. Trwy ein syniadau bu'n bosibl i PLANED roi ystyr i'r Nadolig i ni ac ym mis Ionawr 2010 gwnaethom blymio i'r gors yn llythrennol! Dyma ddechrau creu llwybr a rhodfa a gwella'r mynediad gyda ffensys, gatiau ac ychydig o fân dirlunio. Roedd rhai coed bach eisoes wedi'u plannu, ein cyfraniad i nodi bod grŵp F.E.R.N. wedi'i ffurfio a chymryd rhan yn y prosiect Tree O'Clock.

Gwirfoddolwyr yn gweithio ar y rhodfa

Daeth Parcmon y Parc Cenedlaethol, Tim Jones, â ni i gyd at ein gilydd i wneud y gwaith a gwnaeth waith rhagorol yn trefnu. Dros gyfnod o dri mis, roedd y gweithlu yn cynnwys Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, Wardeiniaid Gwirfoddol, aelodau'r grŵp FERN, grŵp Cynorthwywyr y Warchodfa Natur Leol, Gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol, Myfyrwyr a Chontractwr. Prynwyd deunyddiau ar gyfer y rhodfa a chyfleusterau eraill a'u rhoi at ei gilydd mewn gweithdy yn Sageston ac yna'u cludo i'r safle.

Byddai'r rhodfa yn cynnwys mwy na 2 km o ddecin a 70 kg o hoelion! Mae yna gydberthynas uniongyrchol rhwng oriau gwirfoddolwyr a hyd y rhodfa. Heb oriau'r gwirfoddolwyr byddai llawer mwy o arian wedi mynd i gontractwyr.

Dwy sesiwn i gyfrif amdani ac mae wedi cymryd 90 awr i'r Parcmon Tim, 44 awr o amser contractwr, 64 awr o amser Warden a 173 o oriau gwirfoddolwyr.

Mae pawb sydd wedi bod wrthi'n helpu wedi mwynhau yn fawr. Gwnaeth pob sesiwn gwirfoddolwyr gyfraniad mawr a chafodd pawb fwynhad mawr o weld eu hymdrechion yn ymestyn y rhodfa ymhellach ac ymhellach.

Adeg ysgrifennu'r erthygl, bydd angen un sesiwn diwrnod llawn gyda chontractwyr ac yna ychydig o dwtio, ond mae ar amser ac yn ôl y gyllideb. Does ryfedd ein bod ni'n gwenu.

Y Diweddglo Cyntaf

Bydd lansio'r hyn sy'n cael ei alw'n gam 1 o'r rhodfa bellach yn cynnwys Gweithdy Natur – taith yn y gwanwyn gydag ymchwiliad i fyd dŵr i'w gynnal ym mis Mai.

Beth yw Byd Dŵr?

Mae'n ardal o anialwch hardd a chartref i greaduriaid a phlanhigion arbenigol na welir mewn unrhyw gynefin arall. Yn ein hachos ni mae'n fan i ymlacio, hamddena ac astudio.

Mae'r Coetir Gwlyb yn darparu cysgod a bwyd i anifeiliaid. Mae yna amrywiaeth eang o anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn ffynnu ar bren marw, gan ddadelfennu'r gwastraff a darparu maetholion priodol i'r planhigion dyfu. Mae'r Gold y Gors eisoes wedi dangos ei hun i ni, felly beth arall allwn ni ei ddisgwyl?

Nid yw creaduriaid coetir yn hawdd i'w gweld. Eu mannau gorffwys, eu traciau neu eu tail yn aml yw'r unig dystiolaeth eu bod yn bresennol, ond rydym eisoes wedi gweld adar gwibiog megis Gïach a Rhegen y Dŵr. Mae ein gwlyptiroedd yn hanfodol i lawer o adar sy'n eu defnyddio fel mannau i gael ymborth a gorffwys neu fel eu tiroedd bwydo yn y gaeaf.

Mae'r Coetir Gwlyb a'r Gwlyptir yn ffurfio clytwaith hardd gyda'r cynefinoedd eraill gan arwain at amrywiaeth fawr o rywogaethau a nodweddion mewn ardal fach. Mae'n gyswllt ecolegol rhwng Scrubby Bottom yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Twyni, y Traeth a'r Warchodfa Natur Forol a Chlogwyni'r SoDdGA.

Mae ein Cors yn lleihau'r perygl o lifogydd yn y gaeaf. Mae'n ymddwyn fel sbwng anferth, gan arafu llif y dŵr wyneb. Mae'r un sbwng yn helpu i leihau gwrtaith a phlaladdwyr rhag llygru Afon Lliw sy'n llifo i'r traeth ac yn helpu i leihau algâu niweidiol rhag tyfu. Gall gwlyptiroedd hidlo cymaint â 91% o'r ffosfforws a 86% o'r nitrogen. Gall gwlyptiroedd gael gwared ar nwyon tŷ gwydr o atmosffer y Ddaear a'u storio.

Mae gwlyptiroedd yn cael gwared ar waddodion sydd ynghrog mewn dŵr sy'n llifo. Wrth i'r dŵr lifo i'r gwlyptir, mae'r dŵr yn arafu ac mae'r gwaddodion yn setlo. Gall rhai gwlyptiroedd ddal cymaint â 94% o'r gwaddodion (baw). Mae gwaddodion glân yn bwysig oherwydd eu bod yn cynnwys pocedi aer y mae bywyd dyfrol yn dibynnu arnynt i fyw. Mae'r gofodau hyn yn darparu cynefin i organebau dyfrol i ddodwy eu hwyau ac yn cyfrannu ocsigen sy'n hanfodol iddynt oroesi.

Cawsom fraw wrth weld rhywfaint

Rhagor o FERN

o afliwiad i'r dŵr o amgylch y sliperi rheilffordd a ddefnyddiwyd i gynnal y rhodfa. Roedd y rhain wedi'u treulio'n dda felly roedd hi'n anodd deall. Doedd hyn ddim yn broblem. Roedd yn rhan o'r prosesau uchod. Roedd yr afliwiad yn digwydd ym mhob rhan o'r Gors ond roedd yn fwy amlwg yng nghyffiniau'r rhodfa. Wrth greu'r rhodfa achoswyd rhywfaint o ddirgryniad ac roedd cynhyrchion pydru naturiol wedi dod i'r wyneb fel rhyw fath o haen seimllyd. Bydd y cyrs yn dechrau tyfu eto yn yr haf a chaiff hwn ei ddefnyddio.

Y Dyfodol

Mae pleserau syml megis arsylwi a thynnu lluniau Adar, Ieir Bach yr Haf, Planhigion, Pryfed, Anifeiliaid a sylwi ar y tymhorau'n newid yn rhoi mwynhad ac yn ychwanegu at ein Naws am Le.

Mae gwlyptiroedd Prydain yn cael eu distrywio yn rhyfeddol o gyflym. Pob blwyddyn mae ardal o wlyptiroedd arfordirol maint 2,000 o gaeau pêl-droed yn cael eu colli. **Mae'n rhaid i ni gynnal ein lle.** Diolch PLANED am helpu gyda cham 1

RHANDIROEDD CANOLFAN ARDAL SAUNDERSFOOT

gan Liz Talboys

Y llynedd, fel mater o ddiddordeb mewn gwirionedd, euthum i gyfarfod rhwydwaith rhandiroedd a drefnwyd gan PLANED. Fe'm synnwyd wrth weld o'r wyth grŵp oedd wedi'u cynrychioli, bod tua phump heb dir ac wedi bod yn chwilio am dir i'w rentu neu ei brynu am beth amser am nad oedd Cyngor Sir Penfro yn gallu darparu dim. Roedd un grŵp wedi bod yn ceisio am 20 mlynedd a newydd gytuno i gael tir ar brydles. Roeddwn i wedi clywed rhywbeth am y posibilrwydd o dir i'w rentu yn ein hardal ac yn benderfynol o fynd ar drywydd hwn. Heddiw, 10 mis yn ddiweddarach, mae Cymdeithas Rhandiroedd Cymunedol Llwyncelyn wedi'i sefydlu, gyda lleiniau i'w rhentu, rhai ½ maint a maint llawn, cyfansoddiad, cyfrif banc yn cael ei agor a 26 o aelodau sydd wedi talu'n llawn. Mae ein haelodau yn dod o Saundersfoot a'r ardal gyfagos, gyda'n haelodau dewraf yn dod o Faenorbŷr! Mae aelodau newydd yn ymddangos ym mhob cyfarfod – ni fu'n rhaid i ni hysbysebu! Mae pawb yn awyddus i fwrw ati er gwaetha'r ffaith mai glaswelltir ffres yw'r tir a bydd hi'n waith caled am y flwyddyn gyntaf. Rydym newydd wneud cais am grant gan Gronfa Effaith Sir Benfro i dalu am y gost o ffensio'r cae rhag cwningod ac yn disgwyl yn eiddgar am y canlyniad. Mae pibellau dŵr wedi'u gosod ac rydym yn gobeithio prynu deunyddiau i wella mynediad i'r cae er y bydd hyn yn dibynnu ar ddod o hyd i gyllid.

Rydym yn cyfarfod ar ail ddydd Mawrth y mis yng Nghlwb Hwylio Saundersfoot, ac yn gobeithio cynnal rhai digwyddiadau cymdeithasol megis barbiciw, digwyddiadau cymdeithasol ac ati. Rydym yn croesawu aelodau newydd ac mae rhai lleiniau ar gael o hyd. Cysylltwch â Jetske am fanylion cyswllt os ydych am fwy o wybodaeth.

☎ 01834 862111
✉ jetskeg@planed.org.uk

DIGWYDDIADAU A GWEITHDAI SYDD AR DDOD

Gwylio Llamhidyddion a Gwenoliaid

5 Ebrill 2:30-4:00$_{pm}$ yn arsyllfa Strumble Head. Ffoniwch Cliff Benson am wybodaeth ar
☎ 01348 875639
✉ info@seatrust.org.uk

Noson Ystlumod a Gwyfynod

Castell Henllys 8 Ebrill 7 - 9pm £3-00 yr un – archebu'n uniongyrchol gyda'r gaer ar
☎ 01239 891319

Taith Rheoli Cynefinoedd

6 Mai 2010. Dangos sut y gallwch chi reoli eich safle cymunedol.
✉ lizt@planed.org.uk
neu
☎ 01834 862113 i archebu.

Gweithdy Mabwysiadu Llwybr

8 Mai 9.30-12 yn Nhrefdraeth. Bydd y gweithdy yn dweud wrth sut allwch chi gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r Llwybrau Tramwy yn eich ardal gyda gwybodaeth am gyllid, yswiriant ac awdurdod lleol. Archebu trwy Jetske.
☎ 01834 862111
✉ jetskeg@planed.org.uk

Bywyd Gwyllt yn eich Bro

Astudio Pyllau Llanw yn y Creigiau yn Broadhaven

1 Mehefin 2-4pm. Bydd gweithgareddau'n cynnwys astudio pyllau llanw yn y creigiau, sgwrs a chasgliad morol) ac edrych ar fywyd morol ar y traeth. Archebu trwy Jetske.
☎ 01834 862111
✉ jetskeg@planed.org.uk

Bywyd Gwyllt yn y Gaer

Castell Henllys 2 Mehefin 11-30am ac 1-30pm - pris mynediad arferol + £1 am archebu - yn uniongyrchol gyda'r gaer fyddai orau ar
☎ 01239 891319

Bywyd Gwyllt Comin Penfro

gweithdy Eich Bro yn edrych ar fywyd gwyllt lleol.
5 Mehefin 2pm. mwy o fanylion i ddilyn – cysylltwch â Jetske yn PLANED
☎ 01834 862111
✉ jetskeg@planed.org.uk

Ffair Werdd

Canolfan Picton, Hwlffordd dydd Sadwrn 12 Mehefin 10am - 5pm.

Bywyd Gwyllt Maenorbŷr

gweithdy Eich Bro yn edrych ar fywyd gwyllt lleol.
26 Gorffennaf (nos) mwy o fanylion i ddilyn – cysylltwch â Jetske yn PLANED
☎ 01834 862111
✉ jetskeg@planed.org.uk